Sir Benfro PCF Fforwm Arfordir Pembrokeshire Coastal Forum

Y Cynllun Ymgysylltu Ynni'r Môr

Grymuso Cymunedau ar gyfer Dyfodol Cynaliadwy

Canllaw Defnyddwyr Ymgysylltu Ynni Adnewyddadwy Morol

Cymunedau Gwledig

Mae'r Canllaw hwn yn cynnwys gwybodaeth ar sut i hysbysu ac addysgu'r gymuned am ynni adnewyddadwy morol yn Sir Benfro.

Funded by UK Government

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

Pembrokeshire Nature Partnership
Partneriaeth Natur Sir Benfro

in partnership with Pembrokeshire Nature Partnership Partneriaeth Natur Sir Benfro

WCVA CGGC

This project is funded by Welsh Government's Local Places for Nature: Marine and Coastal Capacity Scheme, administered by WCVA

Cyflwyniad

Mae'r rhan fwyaf o Sir Benfro yn wledig, ac mae 17.2% o bobl yn nodi eu bod yn siarad Cymraeg. Mae gan Sir Benfro hefyd un o'r canrannau uchaf o bobl a gyflogir mewn amaethyddiaeth, coedwigaeth a physgota yng Nghymru, sef 9.9% (Afonydd Cymru, 2019).

Mae ffermio wrth galon bywyd gwledig Sir Benfro. Fodd bynnag, mae ffermwyr yn delio ag amrywiaeth o heriau, o gostau cynyddol rhedeg ffermydd a phrisiau marchnad anrhagweladwy, i ddod o hyd i ddigon o weithwyr a chadw i fyny â rheoliadau amgylcheddol.

Mae gan gymunedau gwledig Sir Benfro gysylltiad cryf â'r tir a'r môr. Er efallai nad yw'r cymunedau hyn yn gwbl ymwybodol o ddatblygiadau ynni adnewyddadwy morol sy'n digwydd yn awr, gallent chwarae rhan allweddol yn y dyfodol. Gallai ynni adnewyddadwy morol greu ystod ehangach o swyddi yn Sir Benfro, gan helpu'r sir i ddod yn fwy gwydn i newidiadau economaidd, a lleihau ei dibyniaeth ar waith tymhorol ac amaethyddiaeth. Mae ffermwyr a thrigolion cefn gwlad yn stiwardiaid naturiol y tir a'r môr. Gall ynni adnewyddadwy morol helpu i liniaru effeithiau newid yn yr hinsawdd a diogelu'r tir ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Gallai ynni adnewyddadwy morol hefyd roi hwb i'r economi ehangach sy'n cefnogi gwasanaethau lleol ag adnoddau da a seilwaith a fydd o fudd i gymunedau gwledig Sir Benfro.

Cwestiynau i'w hystyried

- Bydd angen gweithlu mawr i ddatblygu ynni gwynt arnofiol ar y môr - ble fydd y gweithwyr hyn yn byw a pha effaith y byddant yn ei chael ar ein cymunedau presennol?
- Sut gall pobl yn Sir Benfro gael mynediad at swyddi yn y sector hwn os oes ganddynt ddiddordeb?
- Pa effaith a gaiff y sector ar recriwtio ar gyfer busnesau presennol Sir Benfro?
- Mae tirwedd a bywyd gwyllt yn bwysig i lawer o bobl yn Sir Benfro, sut y cânt eu hamddiffyn?

Siarad â Chredoau Gwahanol

Mae gan bobl farn a phryderon amrywiol. Efallai na fydd yr hyn a allai apelio at un person yn apelio at rywun arall. Fodd bynnag, mae rhai negeseuon craidd sy'n apelio at bron pawb.

- Cysylltu â hunaniaeth leol: Cysylltu negeseuon am ynni adnewyddadwy morol â hunaniaeth ac arweinyddiaeth leol, canolbwyntio ar gefnogi diwydiannau lleol a Phrydeinig.
- Cydnabod eu hymdrechion: Cydnabod y gwaith mae cymunedau gwledig eisoes yn ei wneud i helpu'r amgylchedd. Yn hytrach na dweud wrthynt beth i beidio â'i wneud, siaradwch am yr hyn y gallant ei wneud a phwysleisiwch stiwardiaeth a'r cyfrifoldeb a rennir o ddiogelu'r amgylchedd.
- Defnyddiwch leisiau dibynadwy: Pobl leol sydd â gwreiddiau dwfn yn y gymuned yw'r negeswyr gorau. Maent yn deall treftadaeth yr ardal ac yn cynrychioli'r gymuned yn dda.

Manteision Posibl Ynni Adnewyddadwy Morol

- **Diogelu Treftadaeth**: Yn cefnogi traddodiadau amaethyddol a morwrol tra'n sicrhau dyfodol economaidd cynaliadwy ac iach.
- **Cryfhau'r Gymuned**: Yn cynyddu cydnerthedd trwy roi hwb i sicrwydd ynni a gostwng costau ynni ar gyfer ffermio. Gallai hyn hefyd wneud cynnyrch lleol yn fwy proffidiol.
- **Arferion Ffermio Cynaliadwy**: Gallai mynediad at ynni fforddiadwy a gynhyrchir yn lleol gefnogi arferion ffermio cynaliadwy.
- **Cryfhau Economïau Gwledig**: gall prosiectau ynni'r môr ddod â buddsoddiad a datblygiad i ardaloedd gwledig, gan roi hwb i economïau lleol a darparu cyfleoedd i drigolion aros yn lleol yn hytrach na symud i ardaloedd trefol i weithio.
- **Addysg a Datblygu Sgiliau yn y Gymraeg**: Gellid cynnig rhaglenni hyfforddiant ac addysg am ynni adnewyddadwy morol yn Gymraeg, gan sicrhau bod siaradwyr Cymraeg lleol yn ennill sgiliau perthnasol yn y sector hwn sy'n tyfu ac yn creu cyfleoedd swyddi newydd.

Pryderon Posibl

- **Gwrthdaro Defnydd Tir**: efallai y bydd angen tir ar brosiectau ynni adnewyddadwy morol ar gyfer rhywfaint o seilwaith, a allai wrthdaro â defnydd amaethyddol.
- **Tarfu ar Gynefinoedd**: Gall adeiladu a gweithredu effeithio ar gynefinoedd morol, gan effeithio ar boblogaethau pysgod a bywyd y môr sy'n bwysig ar gyfer pysgota a dyframaethu.
- **Dadleoli Swyddi**: Gall swyddi newydd ym maes ynni adnewyddadwy morol arwain at golli swyddi posibl yn y sectorau amaethyddol traddodiadol.
- **Gwrthwynebiad y Cyhoedd**: Efallai y bydd gan rai cymunedau ffermio bryderon am effeithiau prosiectau ynni'r môr ar eu bywoliaeth, eu hamgylchedd a'u cymeriad lleol.

Llysgenhadon

- Mae gan Gynghorwyr Lleol fynediad uniongyrchol i rwydweithiau cymunedol a gallant ddefnyddio sianeli cyfathrebu presennol i rannu gwybodaeth.
- Mae sefydliadau trydydd sector eisoes yn ymgysylltu â'r gymuned ar faterion arfordirol a morol. Gallant gyfathrebu a mynd i'r afael â phryderon cymunedol yn effeithiol.
- Bugeiliaid ac Arweinwyr Cymunedol o gapeli lleol yn ddylanwadol ac ymddiriedir ynddynt o fewn eu cymunedau.
- Mae trefnwyr Eisteddfodau lleol yn adnabyddus ac yn uchel eu parch o fewn y gymuned.
- Gall allfeydd newyddion a gorsafoedd radio lleol gyrraedd cynulleidfa eang a darparu darllediadau cyson, gan sicrhau bod y cyhoedd yn cael eu hysbysu a'u cynnwys

Nid yw'r rhestr hon yn hollgynhwysfawr a gallai fod llawer o bobl ddylanwadol eraill o fewn cymunedau gwledig hefyd!

Sir Benfro PCF Fforwm Arfordir Pembrokeshire Coastal Forum

Gweithgareddau Ymgysylltu

Mae'r tabl isod yn cynnwys gwahanol ddigwyddiadau a gweithgareddau i ymgysylltu pobl mewn Cymunedau Gwledig ag ynni adnewyddadwy morol.

Digwyddiad	Gweithgaredd
Sioeau amaethyddol a sirol	Stondin, gweithgareddau ymarferol a rhithwir, arddangosiadau byw, gweithdai a deunyddiau addysgol. Stondin, arddangosfeydd, trafodaethau a sesiynau holi ac ateb i dargedu cymuned ffermio.
Gwyliau bwyd a diod	Stondin gyda deunyddiau rhyngweithiol yn gyfnewid am docynnau bwyd am ddim.
Eisteddfodau	Stondin gyda gwybodaeth, gweithgareddau yn cael eu cyflwyno yn Gymraeg.
Ffeiriau Nadolig gwledig	Stondinau Nadoligaidd gyda gwybodaeth a gweithgareddau ar thema gwyliau, bagiau siopa amldro a nwyddau am ddim eraill ar gyfer anrhegion.

Sianeli Cyfathrebu

Mae'r tabl isod yn cynnwys dulliau cyfathrebu am ynni adnewyddadwy morol ar gyfer Cymunedau Gwledig.

Sianel	Disgrifiad
Allfeydd newyddion lleol	Erthyglau newyddion, datganiadau i'r wasg a diweddariadau.
Hysbysfyrddau cymunedol	Dosbarthu gwybodaeth gyffredinol a phrosiectau yn Sir Benfro.
Grwpiau Cyfryngau Cymdeithasol Cymunedol	Darparu gwybodaeth am ddigwyddiadau sydd i ddod a newyddion lleol.
Digwyddiadau Lleol	Stondinau gyda gwybodaeth, trafodaethau a Holi ac Ateb.
Gwasanaethau Ysgol	Rhannu Diweddariadau, storïau llwyddiant a chynnwys addysgol.
Post Uniongyrchol	Rhannu diweddariadau, sut i gymryd rhan a digwyddiadau sydd i ddod

Cysylltwch

FI gael rhagor o wybodaeth neu i gysylltu â ni, e-bostiwch
Gydlynydd Prosiect y Cynllun Ymgysylltu Ynni'r Môr
holly.skyrme@pembrokeshirecoastalforum.org.uk

ewch i'n tudalen we yn
www.pembrokeshirecoastalforum.org.uk/meep

Y Cynllun Ymgysylltu Ynni'r Môr
Grymuso Cymunedau ar gyfer Dyfodol Cynaliadwy

Sir Benfro Fforwm Arfordir Pembrokeshire PCF Coastal Forum